# LLEW GWEITHWYR AMERICA

## Adre'n ôl gyda ELWYN LEWIS JONES

CHWILIO am eu gwreiddiau y mae Americanwyr o hyd, a dyna mi gredaf a wnânt am amser maith eto; rhan o'u tynged anochel fel cenedl ydyw. Amcenir i ddeugain miliwn o bobl fudo o Ewrop i America, Awstralia, Canada, Seland Newydd, Affrica a gwledydd eraill yn ystod y ganrif ddiwethaf; mynd i unrhyw wlad a gynigiai iddynt well cyflog, tir rhad, cyfle i arfer sgiliau, rhyddid gwleidyddol ac, yn arbennig ryddid i addoli. Eithr i America y bu'r mudo mwyaf o bell ffordd, canys hi oedd gwlad yr addewid.

Rhwng 1815 (blwyddyn cwymp Napoleon) a'r rhyfel mawr cyntaf yn 1914 dywedir i ragor na 100,000 o Gymry fentro'r moroedd i gymryd eu siawns ar hyd a lled America.

Eithr ar ôl 1850 y bu'r mudo mwyaf o siroedd Cymru, pan oedd cyflogwyr diwydiannol ffrystiog America'n cynnig cyflogau deniadol am sgiliau. Llifodd y Cymry i Pittsburgh, Ohio, Scranton Iowa, Utah a llu o ardaloedd eraill, enwau a ddaeth yn gynefin a rhwydd ar dafodau pobl Merthyr, Abertawe, Tredegar a'r cymoedd y dyddiau hynny. 'Doedd hwylio i'r Unol Daleithiau ddim yn anodd. Byddai tair neu bedair punt ynghyd â phecynnau bwyd a dillad yn ddigon os oeddech yn fodlon wynebu caledi anghredadwy'r hwylio a'r heintiau ar longau drewllyd.

* * *

YMDDENGYS mai o ddosbarth yr ymfudwyr am resymau personol oedd *Thomas Lewis* o fferm y Gowldin ym Mhontarddulais. Fferm fechan o ddeuddeg erw yng nghesail Mynydd y Gopa yw'r Gowldin a'i hanes ar hyd y blynyddoedd yn ddiddorol wrth iddi geisio estyn ei herwau i ffrwythloni'r hen fynydd tu ôl iddi.

Deil y teulu o hyd yn yr ardal a rhai o'r disgynyddion yn parhau i ffermio yn yr hen gartre. Dianc am ei fywyd i'r America wnaeth *Thomas Lewis* meddai mam wrthyf un tro, a hithau'n nith iddo. Dianc mewn braw.

*"Roedd Thomas a'i frawd Llewellyn, yn dod gartre o gwrdd gweddi yng nghapel y Gopa un noson dywyll. Yn sydyn, yn y twllwch, dyma weld rhyw fachan yn caru a wejen Thomas uwchben Pownd Iago. Collodd Thomas ei dymer ac aeth yn ffeit. Roedd Thomas yn fachan mawr weli di, ac fe gredws iddo roi cnoc i'r un*



*JOHN LLEWELYN LEWIS 1880-1969*

*arall nes gwneud drwg mawr iddo, a falle'i ladd. 'Doedd dim modd gweld yn y twllwch. Fe redws bant y feri noson honno a'i deulu'n gwbod dim".*

Dyna fel y cefais y stori! Rhamant teulu ynteu'r gwir?. . . 'does fawr o wahaniaeth erbyn hyn. Beth bynnag oedd y rheswm, gadael wnaeth *Thomas Lewis* a gweithio'i ffordd i ddoc Abertawe, yna i Lerpwl a gweithio'i ffordd ar long wedyn i Awstralia ac, o'r diwedd, i America, a chael gwaith fel coliar profiadol ymhob un o'i orsafoedd. Pen ei grwydrad oedd Iowa.

Roedd hyn i gyd o gwmpas 1874-76. Tua'r un adeg roedd teulu Watkins wedi mudo o Dredegar i'r wlad well, a dirgel ffyrdd yr Arglwydd a drefnodd i *Thomas Lewis*, y Cymro o Bontarddulais, gyfarfod â Chymraes ifanc, *Louisa Watkins o Dredegar!*

Priododd y ddau, a ffrwyth cyntaf eu huniad oedd *John Llewellyn Lewis* a anwyd yn Lucas, Iowa ar Chwefror 12fed, 1880. Dyna ddechreuad hanes un a ddisgrifiwyd gan Americanwyr ei ddydd fel un o'r dynion mwyaf nerthol yn hanes America.

* * *

CYFFREDIN oedd byd cynnar *John L.* a digon caled. Ef oedd yr hynaf o wyth o blant a aned i Thomas a Louisa, a chafodd ei hun yn gorfod gweithio i helpu cynnal y teulu, ac yntau ond deuddeg oed. Roedd y rheini'n Gymry Cymraeg ac yn mynychu moddion gras yn yr hen ddull, ond yn Saesneg gyda'r Presbyteriaid.

Dywedir mai un o nodweddion y Cymry a deithiai ar longau'r ymfudo mawr oedd ymgasglu'n gyson i gynnal cyrddau crefyddol.

Hawdd credu i *Thomas Lewis o'r Bont* fod yn un o'r aelodau yn yr oedfaon morwrol anghyffredin hynny.

Yn gweithio pan oedd yn ddeuddeg oed a wedyn yn cloddio glo yn Colorado yn bymtheg oed, a'r teulu'n cynyddu, bu profiad John L dan y ddaear yn gymhwyster mawr iddo yn ei hanes diweddarach.

Yn 1909 cafodd ei wneud yn Asiant Undeb y Glowyr, a dwy flynedd wedyn ei ddyrchafu i fod yn drefnydd ar yr A.F.L. (American Federation of Labour). Yn 1917 daeth yn Is-Lywydd Undebau Llafur America a dwy flynedd yn ddiweddarach eto dyrchafwyd ef yn Llywydd.

Ni chawsai addysg ffurfiol felly, ei flys a'i egni mawr a'i symbylodd i ddysgu ei hun. Roedd yn ddarllenwr barus, yn llyncu popeth, a'r Beibl yn help parod wrth ei benelin bob amser (ef ei hun a ddywedodd hyn wrthyf).

Ond bu'n ffodus i gwrdd â merch ddiwylliedig a'i phriodi. Bu dylanwad *Myrta*, ei wraig, yn drwm arno a bu'n gymorth mawr gyda'i ddysg, a thrwyddi hi y daeth yn gynefin â ieithoedd eraill, a hi hefyd a'i helpodd i lyfnhau a grymuso'i areithiau.

Yn ddiweddarach dywedodd mai ei cholli hi a fu'n agos i danseilio'i feddwl. Bu hi farw'n annisgwyl. Roedd iddynt ddau o blant, Kathryn a John L. Junior. Bu'r ferch farw hefyd yn ei thridegau, ond deil ei fab i weithio fel meddyg seiciatryddol.

Am gryn amser yn ei yrfa roedd yr Arlywydd Roosevelt ac yntau'n gefnogol i'w gilydd, a chyfeillgar hefyd — y ddau'n ddigon craff i weld gwerth ei gilydd. Ond pan geisiodd Roosevelt yn 1940 ennill trydydd tymor iddo'i hun, am ryw reswm dirgel aeth yn densiwn a ffrae rhyngddynt ac ymddiswyddodd John L., am reswm dirgel arall, o'i swydd fel Llywydd y C.I.O. (Congress of Industrial Organisations).

Condemniai a chyhuddai perchenogion y pyllau a diwydiannau eraill ef o fod yn elyn i'r farchnad rydd. Ei groesawu a'i gyfarch wnaeth y gweithwyr cyffredin fel pleidiwr a phencampwr eu llafur.

* * *

NID ANODD yw clywed ei 'nodau taranus' (disgrifiad ohono bryd hynny) wrth iddo ymosod ar berchenogion glofâu a diwydiannau eraill, â thinc ac arddull yr ysgrythyrau'n britho rhuthr ei eiriau. Hwyrach y swniant yn rhethregol i ni heddiw, ac eto maent rywsut yn gafael:

**"For four weeks we have sat with you; we attended when you fixed the hour; we departed when weariness affected your pleasure.**

**When we emphasised the importance of life you pleaded the priority of profits.**

**You prate your respectability; we are shocked at your lack of public morality.**

**You scorn the toils . . . of the miner; we withhold approval of your luxurious mode of life and the nights you spend in merriment.**

**To cavil further is futile. We trust that time, as it shrinks your purse may modify your niggardly and anti-social propensities".**

Yna mewn anerchiad i'w ddilynwyr ei hun, yr U.M.W.A. (United Mineworkers of America) dyma'i eiriau, a ddisgrifid gan Americanwyr ei ddydd fel darlun cryno a chywir o'i fywyd a'i yrfa:

**"I have pleaded your case not in the tones of a feeble mendicant asking alms but in the thundering voice of the captain of a mighty host, demanding the rights to which free men are entitled".**

* * *

"CHWILIO am eu gwreiddiau mae Americanwyr o hyd . . .". Un prynhawn o haf 1934 cefais innau'r fraint o grwydro glannau troellog afon Llwchwr ym Mhontarddulais a thywys John L. a'i fab 'John L. Junior', dilyn yr afon hyd at Hen Eglwys Llandeilo Talybont (sydd erbyn hyn yn grair yn amgueddfa Sain Ffagan) ac wedyn gyrchu'r fynwent.

Roedd y dyn mawr am ddod o hyd i ryw arwyddyn o'i gyndadau. Er imi geisio'i ddarbwyllo nad oedd yn debyg o gael un enw perthnasol yn yr hen fynwent honno, ac mai ym mynwent ddiweddarach y Gopa y dylem chwilio, roedd yntau'n siwr mai dim ond mewn lle hynafol a murddunaidd-urddasol fel yr hen eglwys roeddem yn debyg o gael gafael ar enw un o'i hynafiaid ef!

Roedd yn gwrtais, ond styfnig! Yno y buom, y tri ohonom, agos i dair awr, yn treulio llafnau cyllyll poced wrth grafu wynebau cerrig beddau eglwys Llandeilo Talybont, a gadael wrth gwrs yn waglaw.

Oedd roedd yntau'n dawel a bodlon, ac wedi cael boddhad a oedd yn ddirgelwch i John Junior a minnau. Cofiaf ef yn chwerthin a rhoi ei law ar fy mhen, *"Three hours well spent . . . you'll understand one day son!"* A gwir a ddywedodd.